



Trefn dewis aelodau i gystadlu mewn Cystadlaethau / Timau Chwaraeon.

Nod:

Un o brif amcanion addysg yw creu dinasyddion cyflawn ac i'r diben hwn ni all unrhyw ysgol gyflawni'r nod o fewn oriau arferol ysgol nac ychwaith mewn cyfuniad o'r oriau hynny ag oriau ychwanegol. Rhan annatod o'r nod cyffredinol yw meithrin ystod eang o ddiddordebau - diwylliannol, corfforol ac arbenigol. I ymgyrraedd ato rhaid trefnu cymaint ag y bo'r modd, o fewn rheswm, o weithgareddau all-gwricwlaidd.

Amcanion:

- Sicrhau bod amrywiol ddiddordebau arbenigol y plant yn cael eu meithrin a'u datblygu.
- Sicrhau bod amrywiaeth o ddinasyddiaeth dda yn cael ei hybu a'i datblygu.
- Sicrhau bod antur, ffitrwydd corfforol ac ymroi i'r bywyd diwylliannol Cymraeg yn dod yn rhan hanfodol a phleserus o fywyd pob plentyn

Canllawiau:

Er mai gwaith anodd yw ysgaru'r 'cwrwlaidd' a'r 'all-gwricwlaidd' oddi wrth ei gilydd ceisir rhoi rhai awgrymiadau ar y math o weithgareddau y ceisir eu hybu yn yr ysgol hon:

1. Diwylliannol:
 - ymdrechu i gael pob plentyn i fod yn aelod o glwb llyfrau / llyfrgell y Sir;
 - hybu disgyblion i gystadlu yn Eisteddfod Yr Urdd;
 - cydweithredu â mudiadau diwylliannol lleol;
 - codi arian at achosion da;
 - cefnogi ymgyrchoedd lleol megis Menter Iaith Bangor.
2. Gweithgareddau Maes:
 - Hybu aelodaeth o glybiau chwaraeon o bob math yn arbennig rhai lleol;
 - Ymdrechu i hybu menter ac antur yn y plant trwy eu hannog a'u cefnogi i gynnal gweithgareddau i'r perwyl, e.e. preswyllo, teithiau natur, helpa drysor a.y.b.
3. Ymgyrchoedd Cyhoeddus / Amgylcheddol:
 - Ymgyrch tacluso'r ddinas / ardal leol
 - Ymgyrch plannu coed
 - Ymgyrch codi arian at achos teilwng
 - Ymgyrch helpu hen bobl / pobl anghenus / yr anabl a.y.b.

Dewis a rhoi cyfle:

Yr ydym yn annog a chynnig cyfleoedd i ddisgyblion gystadlu / cymryd rhan mewn nifer o agweddau drwy'r ysgol boed yn unigol, pâr, grŵp neu fel aelod o dîm/côr. Mae'r cyfleon yma yn amrywio o fod yn cystadlu o fewn ysgol, cystadlaethau rhanbarthol, neu'n genedlaethol. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r pwysigrwydd i geisio rhoi cyfle i bob disgybl dderbyn cyfleoedd amrywiol yn ystod eu cyfnod yn yr Ysgol boed hynny mewn gwasanaethau dosbarth, cyngherddau Nadolig/ Diolchgarwch, gemau tîm a/neu mabolgampau'r ysgol. Mewn rhai cystadlaethau mae dewis timau / cystadleuwyr yn cael ei wneud ar sail;

- Lefel sgil / ffitrwydd
- Dealltwriaeth o'r gem a'r rheolau
- Aeddfedrwydd emosiynol i ddygymod â sefyllfa gystadleuol
- Ymdrech, perfformiad ac ymddygiad mewn gwersi
- Ymdrech mewn ymarferion / gwersi
- Yr awch i ddysgu a gwella
- Gwrandawiadau / treialon penodol i'r gystadleuaeth.

I gystadlaethau penodol e.e. Timau chwaraeon/nofio, Can actol, cyflwyniad dramatig, partïon llefaru fe fydd yr ysgol yn trefnu treialon / gwrandawiadau anffurfiol. Fe fydd y disgyblion sydd yn perfformio orau yn y treialon / gwrandawiadau ac yn cyflawni'r criteria uchod yn cael ei dewis.

Trefn dewis Côr, Can Actol a Chyflwyniad Dramatig:

Yn ddelfrydol, braf byddai gweld pob disgybl yn cael cyfle i gynrychioli'r ysgol mewn Cân Actol ac mewn Cyflwyniad Dramatig yn flynyddol. Oherwydd cyfyngiadau cystadlu ac ymarferoldeb ymarfer a chreu dillad / offer nid yw'n ymarferol i allu cyflawni hyn. Felly er mwyn sicrhau fod pawb yn cael cyfle i berfformio ar lwyfan yr Eisteddfod, a gan nad oes cyfyngiad cystadlu, mae pob disgybl blwyddyn 5 sydd yn dymuno bod yn y Cyflwyniad Dramatig yn cael y cyfle.

Fe fydd gwrandawiadau anffurfiol i Fl.5/6 yn cael eu defnyddio i ddewis disgyblion i fod yn rhan o'r gan Actol a'r Côr yn flynyddol. Fydd y gwrandawiadau ar sail:

- Lefel gallu canu
- Lefel gallu actio
- Ymdrech yn y gwrandawiadau

Yn flynyddol fe fydd y disgyblion bl.6 sydd wedi llwyddo yn y gwrandawiadau i'r Gân Actol yn cael dewis bod yn rhan o'r Cyflwyniad Dramatig er mwyn cefnogi disgyblion bl.5

Yn achlysurol fe fydd lefel perfformiad blaenorol y disgyblion mewn cystadlaethau / perfformiadau tebyg yn cael ei ystyried.

Rôl y rhieni;

Teimlwn fod y drefn yma yn deg ac yn sicrhau fod pob disgybl gael cyfle i berfformio a chystadlu yn ystod eu cyfnod yn yr Ysgol a diolchwn i rieni am ein cefnogi ni fel a ganlyn:

- Os yw eich plentyn yn cael ei dd/dewis i gynrychioli'r ysgol yn aml, hoffwn i chi eu hannog i ddeall y ffrainc o gael cynrychioli'r ysgol ac iddynt fod yn falch o'u hunain.
- Os nad yw eich plentyn yn cael eu ddewis i gynrychioli'r ysgol yn aml, hoffwn i chi eu hannog i barhau i ddod i ymarferion/ gwrandawiriadau a mwynhau y gweithgareddau y maent yn ymgymryd â hwy; maent yn rhan o llwyddiant eu cyd-ddisgyblion.

Mae gan rieni a chefnogwyr ddylanwad mawr ar fwynhad a llwyddiant disgyblion wrth gystadlu. Mae disgyblion yn awyddus i gystadlu a cael eu dewis yn bennaf oherwydd eu mwynhad o gymryd rhan. Yr ydym yn ymroddedig i ddatblygu a meithrin eu mwynhad mewn chwaraeon a pherfformio fel rhan o ddatblygu sgiliau bywyd. Mae cymryd rhan a chystadlu yn cyfrannu'n helaeth at ddatblygiad personol a hunan-ddelwedd plentyn.